
# Awgrymiadau hwyliog i gyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd.

- Ymarfer ffurfio llythrennau – yn y tywod, sialc ar yr iard, amrywiol ddeunyddiau, e.e. clai, paent, ewyn gan ddweud y sain/sgript.
- Cawl llythrennau magnetig – codi llythyren allan gan ddefnyddio lletwad. Pa lythyren?
- Bowlio – rholio pêl gan geisio bwrw llythyren benodol. Pa lythyren? (bocsys wedi'u labelu, piniau bowlio plastig.)
- Chwarae hercio o un llythyren i'r llall gan ddweud y sain bob tro.
- Darllen cerdyn (llythyren neu air) – yna, chwilio am y llythyren/ llythrennau, mewn trefn ar arddangosfa o'r wyddor.
- Chwilota am y llythrennau/geiriau yn y tywod/y dŵr(pysgota)/yn y pridd(palu). Creu setiau.
- Edrych yn y drych gan ynganu sain llythrennau - sylwi ar siâp y geg.
- Chwilota am lythrennau / geiriau ar y llwyni / ar lein ddillad– eu casglu a'u dosbarthu neu eu had-drefnu i greu geiriau / brawddegau.
- Gêmau Bingo –gan annog y disgyblion i ddargopio'r llythyren gan ddweud y sain bob tro.



- Dis llythrennau / geiriau. Taflu'r dis gan ddweud y sain/ gair. Creu cysylltiadau. Ffurfio'r llythyren/gair ar rolyn mawr o bapur.
- Gemau / rhaglenni rhyngweithiol.
- Gêmau cyfateb. ( llythyren a llythyren, llythyren a phriflythyren, llun a llun, gair a gair, llun a gair)
- Blwch teimlo yn cynnwys llythrennau o amrywiol ddeunyddiau.Teimlo'r llythyren gan ddweud ei sain.
- Gêmau llawr, e.e. Sgwâr cant - taflu dis, rhifo, codi cerdyn (cardiau llythrennau neu eiriau) yna, ymateb.
- Torri geiriau yna'r disgyblion yn eu had-drefnu.
- Bocsys wedi'u labelu â llythyren - postio llythrennau/lluniau sy'n cynnwys y sain.
- Gêmau snap/dominos- gan ddweud pob sŵn.
- Dosbarthu llythyren allan o gasgliad, e.e. Ble mae **a**? Sawl un sydd yna?
- Chwilio am lythrennau mewn geiriau ar y waliau neu ddarn o destun – cofnodi / marcio'r testun.
- Chwilio am eiriau bach mewn geiriau mawr gan ddefnyddio llythrennau magnetig.
- Helfa drysor – casglu llythrennau/geiriau.
- Dewis llun allan o gasgliad,yna, cofnodi ar y camera â'r sgwariau.
- Gwrando ar ganeuon – ymuno yn y canu.